

GWASANAETH GOFAL CENEDLAETHOL I GYMRU

Mae gan **UNSAIN Cymru** dri maes allweddol y credwn y dylid eu blaenoriaethu yn ystod tymor nesaf y Senedd. Mae adferiad ar sail cydraddoldeb yn un o'r meysydd hyn.

Rydym yn galw ar ymgeiswyr i fod yn Aelodau Senedd Cymru (ASC) i ymrwmo i egwyddorion Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru.

Pam ydym ni'n galw am newid?

Roedd y sector gofal cymdeithasol mewn sefyllfa fregus cyn COVID19 o ganlyniad i ddiffyg ariannu dybryd, marchnad ansefydlog, a phrinder gweithlu. Mae'r pandemig wedi cynyddu'r problemau hyn ac wedi tynnu sylw at lu o rai eraill.

Bu methiant systematig wrth gyflenwi a dosbarthu PPE ar ddechrau'r pandemig; diffyg argaeledd profion; cyfradd marwolaethau arswydus mewn cartrefi gofal; a chyflogwyr yn gwrthod talu eu gweithwyr pan oeddent yn ynysu neu wedi profi'n bositif am COVID.

Mae gofal cymdeithasol yn sector sydd mewn argyfwng.

Gweledigaeth UNSAIN

Wrth i ni ddod allan o argyfwng COVID, mae angen i ni ailadeiladu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Nawr yw'r amser am Wasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru.

Ni ddylid byth blaenoriaethu elw dros bobl. Byddai system ofal integredig, wedi'i darparu'n gyhoeddus, o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr gofal fel ei gilydd, a dyma fyddai ein nod yn y tymor hwy. Ond mae'n rhaid i Wasanaeth Gofal Cenedlaethol sicrhau o leiaf:

- Y safonau proffesiynol sydd wedi'u hymgorffori yn y sector yng Nghymru'n cael eu hadlewyrchu yn y safonau cyflog
- Cytundeb cyflogaeth safonol ar gyfer gwaith gofal - gan gynnwys tâl salwch, oriau dan gontract a thâl am yr holl oriau ar ddyletswydd, gan gynnwys 'cysgu i mewn', amser teithio a datblygiad proffesiynol parhaus
- Y ddarpariaeth o gyllido llawn
- Parhau i weithio mewn partneriaeth, bargeinio ar y cyd a chynrychiolaeth undeb llafur yn y sector.

Ni ellir byth anghofio gwir werth gofal cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol eto, a rhaid i ni roi'r flaenoriaeth y mae'n ei haeddu i'r sector yn ystod adferiad ein cymunedau o'r argyfwng hwn.

Gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru yw'r unig ffordd o sicrhau gwasanaeth gwydn o ansawdd uchel sy'n gosod anghenion y defnyddiwr yn gyntaf.

